



Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 7 Mehefin 2022 am 6.00yh
yn rhithiol ac yn Ystafell Cyfarfod, Tŷ Cadwgan, Castell Aberteifi
mewn lein a canllawiau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 7 June 2022 at 6.00pm
virtually and at the Meeting Room, Tŷ Cadwgan, Cardigan Castle
in line with guidelines of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021.

Presennol/Present—**Y Cyngorwyr/Councillors** Trystan Phillips (**yn y gadair** / in the chair), John Adams-Lewis, Catrin Miles, Richard Jones, Nick Bolton, Teresa Harries, Olwen Davies, Clive Davies, Stephen Greenhalgh, Philippa Noble, Elaine Evans, Marilyn Farmer, Llinos Haf Jones (**Cyfieithydd / Translator**) Michael Lewis (Tivyside), Eleri Maskell (**Clerc/Clerk**).

1. **Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.**

Soniodd y Maer, Y Cyng Trystan Phillips “mae tristwch a thor-calon enbyd oedd clywed am gollod Sian a David, wrth i Kelly golli ei brwydr yn erbyn cancr. Mae colled bob tro yn ergyd, ond yr ergyd honno'n fwyfwy trom pan mae rhywun wedi eu cymeryd yn ifanc. Does dim gair na geiriau i gyfleu'r golled yma, ond yn sicr, mae'n meddyliau ni gyd gyda Sian a Dave, gyda Jason, y plant, Kaela, Zac, Leon a Lyra, ei brawd Adam, a'i chwaer Zoe; hefyd i bob un oedd yn ei hadnabod, ac wedi bod yn ddigon ffodus i'w hystyried yn ffrind. Fe anfonwn ein cydymdeimlad fel Cyngor, os ydych yn fodlon, a fyddwch cystal a chodi gyda finnau, er mwyn inni dalu teyrnged dawel i'r teulu, a'r gymuned, yn eu galar”.

Mae'r Cyngor yn dymuno llongyfarch Ysgol Uwchradd Aberteifi ar eu llwyddiant diweddar yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yr wythnos ddiwethaf. Llwyddiant rhyfeddol oedd cael y wobwr gyntaf yn yr ymgom a'r parti merched. Hefyd i gael côr mor fawr yn cystadlu yn yr Eisteddfod, braf oedd gweld cymaint o ddisgyblion yn cymryd rhan. Llongyfarchiadau hefyd i'r staff fu'n addysgu'r disgyblion – Mrs Ilar Toft a Mr Islwyn Evans, i'r pennaeth – Mrs Nicola James a'r pianydd, disgybl blwyddyn 10, Raphael James, ac yn olaf i'r teuluoedd dylse fod yn falch iawn ohonynt, fel ein Cyng Philippa Noble, roedd yn ganlyniad balch iawn i'r dref gyfan. Dymunwn longyfarch pawb a fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod o'n hardal ni, ac i'n cyfieithydd, Llinos - y gwnaeth ei phlant Celyn a Gryff yn dda yr wythnos diwethaf.

Llongyfarchiadau i Mr Brymor Williams ar dderbyn MBE yn ddiweddar am ei wasanaeth i rygbi, elusennau a chyfryngau. Bachgen lleol yw Brymor a gafodd ei addysg yn Ysgol Penparc ac Ysgol Uwchradd Aberteifi, a hyd heddiw sydd â gwreiddiau cadarn yn lleol, rydym yn ei cymeradwyo am roi Aberteifi ar y map yn oleuni mor gadarnhaol.

Llongyfarchiadau i Glwb Ffermwyr Ifanc Penparc a gollodd allan o drwch blewyn ar y brig penwythnos diwethaf gan ddod yn ail yn Rali Flynyddol Ceredigion.

The Chair's Welcome and Personal Matters.

The Mayor, Cllr Trystan Phillips stated "How sad it is to hear that Kelly lost her battle with cancer, causing such heartbreak and devastating pain to Siân and David. Every loss is a blow, but the blow is far greater when someone is taken so young. There are no words to convey this terrible loss, but our thoughts are with Siân and Dave, with Jason, and the children, Kaela, Zac, Leon and Lyra, her brother Adam and sister Zoe; also, to all that knew her, and were fortunate to have her as a friend. We send our sincere sympathy as a Council, could you all join me in a moment's silence to show our respect to the family and the community in mourning.

The Council wish to congratulate Ysgol Uwchradd Aberteifi on their recent success in the Urdd National Eisteddfod last week. It was a marvellous achievement to obtain the first prize in the ymgom and the parti merched. Also, to have such a large choir competing in the Eisteddfod, it was pleasing to see so many pupils getting involved. Our congratulations extend to the staff – Mrs Ilar Toft and Mr Islwyn Evans, to the headteacher – Mrs Nicola James and the pianist, a year 10 pupil Mr Raphael James and lastly to the families who must be very proud, one of them being Cllr Philippa Noble, it was a very proud outcome for the whole town.

We wish to congratulate all who competed in the Eisteddfod from our surrounding area, and to our interpreter, Llinos - whose children Celyn and Gryff, who did well last week.

Congratulations to Mr Brymor Williams for being awarded an MBE recently for his services to rugby, charities and media. Brymor is a local boy who was educated in Penparc School and Ysgol Uwchradd Aberteifi, and to this day has firm roots locally, we applaud him for putting Cardigan on the map in such a positive light.

Congratulations to Penparc Young Farmers Club who narrowly lost out on the top spot last weekend achieving second place in the Annual Ceredigion Rally event.

2. I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb a cytuno a'r rhesymau a roddwyd.

Y Cyng David a Siân Maehrlein (profedigaeth deuluol).

To receive apologies for absence

To receive, and consider for approval, apologies for absence and reasons given.

Cllrs David and Siân Maehrlein (family bereavement).

3. I dderbyn datganiadau o ddiddordeb

Atgoffir aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant ar unrhyw eitem ar yr Agenda hon ar yr adeg hon neu ar unrhyw adeg yn ystod y cyfarfod yn unol â Chod Ymddygiad Cyngor Tref Aberteifi.

To receive declarations of interest

Members are reminded to declare any interest on any item on this Agenda at this point or at any point during the meeting in accordance with Cardigan Town Council's Code of Conduct.

Y Cyng / Cllr Olwen Davies	Cais Cynllunio A220287 / Planning Application A220287
Y Cyng / Cllr Nick Bolton	Cais Cynllunio A220306 / Planning Application A220306
Y Cyng / Cllr Richard Jones	

4. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

I gytuno a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth 10 Mai 2022.

Cynigiwyd y Cynghorwyr bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fawrth 10 Mai yn gywir.

I gytuno a llofnodi cofnodion y cyfarfod Is-bwyllgor a gynhaliwyd nos Fawrth 17 Mai 2022.

Cynigiwyd y Cynghorwyr bod cofnodion y cyfarfod Is-bwyllgor a gynhaliwyd Nos Fawrth 17 Mai yn gywir.

Minutes of last meeting

To approve and sign minutes of the meeting held on Tuesday 10 May 2022.

The Councillors proposed that the 10 May council minutes be recorded as correct.

To approve and sign minutes of the Sub-committee meeting held on Tuesday 17 May 2022.

The Councillors proposed that the 17 May Sub-committee council minutes be recorded as correct.

5. Adroddiad y Clerc

I dderbyn adroddiad gan Clerc y dref yn amlinellu'r camau a gymerwyd yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mai 2022.

Datganiadau Cyfrifyddu 2021-22 ar gyfer Cyngor Tref Aberteifi

Mae'r dogfennau perthnasol wedi eu hanfon ymlaen at Archwilio Cymru ar 31 Mai 2021 gyda thystysgrif postio.

Clerk's report

To receive a report from the Town Clerk outlining actions taken following the meeting held on 10 May 2022.

Accounting Statements 2021-22 for Cardigan Town Council

All relevant documents were forwarded to Audit Wales on 31 May 2022 with certificate of posting.

6. Eitemau i'w cymryd mewn sesiwn breifat

I benderfynu pa eitemau, os o gwbl, o'r Agenda y dylid eu cymryd gyda'r cyhoedd wedi'u gwahrad.

Ni ddatganwyd unrhyw eitemau.

Items to be taken in private session

To determine which items, if any, of the Agenda should be taken with the public excluded.

Nothing to note.

7. Cynllunio

Ystyried ceisiadau cynllunio a derbynnir a dadansoddi sylwadau priodol.

Planning

To consider planning applications received and resolve to submit appropriate comments.

<i>Rhif y Cais / App. No.</i>	<i>Cyfeiriad / Address</i>	<i>Y Bwriad / Proposal</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
A220287	Cardigan Guildhall Preservation Trust, Greenfield Square Carpark, Aberteifi.	Offer peiriannau Dŵr Cymru i'w hadleoli o'r toiledau cyhoeddus presennol gyferbyn â marchnad Neuadd y Dre i gornel gogledd orllewin maes parcio Greenfield Square mewn ciosg newydd / Dŵr Cymru plant equipment to be relocated from the existing public toilets adjacent the Guildhall market to the northwest corner of Greenfield Square carpark in a new kiosk.	<i>Dim gwrthwynebiad i'r cais hwn.</i> No objections to this application.
A220306	Peter Beutell, Karenza, Napier Gardnes,	Newid defnydd adeilad atodol i uned wyliau un ystafell wely ar wahân i'w atodi i Karenza, lle	Nid yw'r cyngor yn cefnogi'r cais hwn oherwydd y caniatâd cynllunio gwreiddiol oedd yn datgan "fod

	Aberteifi, SA43 1EG.	parcio cerbydau i fod fel y presennol o flaen Karenza ar gyfer y prif dŷ a'r uned wyliau / Change of use of ancillary building to a separate one bedroom holiday unit to be annexed to Karenza, vehicle parking to be as existing to the front of Karenza for both the main house and holiday unit.	defnydd yr adeilad fel tŷ i ddod i ben cyn pen dwy flynedd o ddyddiad y caniatâd cynllunio hwn, ac ni chaniateir defnyddio'r adeilad wedi hynny ond i ddibenion atodol at y defnydd preswyl o'r tŷ hysbys, Karenza, ac ni chaiff ei ddefnyddio ar gyfer llety byw o gwbl" / Council does not support this application due to the original planning consent which stated that "the use of the building as a dwelling shall cease before the expiration of two years from the date of this planning permission, and the building shall thereafter only be used for purposes ancillary to the residential use of the dwelling known as Karenza and shall not be used for residential or primary living accommodation whatsoever".
--	----------------------	--	---

8. Eitemau i'w hystyried a'u dadansoddi / Items for consideration and resolution

a) Biliau i'w talu / Bills to be paid

Dyddiad / Date	Disgrifiad / Description	Côd / Code	Rhify Siec / Cheque No.	Swm (TAW) / Sum (VAT)
01/6/22	Tai Aberteifi Ltd.: <i>Rhent Swyddfa'r Cyngor /</i> Rent of Council Office (<i>Mehefin/June</i>) <i>Band Lydan (Mehefin) /</i> Broadband (June)	A9 A20	D/D 5209	£250.00 (0.00) £20.00 (0.00)
7/6/22	<i>Cyflog y Clerc /</i> Clerk's Salary (<i>Mai/May</i>)	A5	5210	£1265.71 (0.00)
7/6/22	<i>Bachan Deche /</i> Handyperson (<i>Mai/May</i>)	A19	5211	£672.00(112.00)
6/6/22	<i>Gwasanaeth Cyfieithu /</i> Translation Service	A18	5212	£115.80(0.00)
10/3/22	Telemat – Installation of IoT Gateways	C2	5213	£1140.00(190.00)
7/6/22	Mr Roy Evans <i>Gwasanaeth y Brysgyllwr /</i> Mace bearer's fee	A6	5214	£140.00(0.00)
7/6/22	Y Cyng. / Cllr Trystan Phillips: <i>Lwfans y Maer /</i> Mayor's allowance (50%), 2022-23.	A1	5215	£1,600(0.00)
2/6/22	Y Cyng. / Cllr Trystan Phillips: <i>Rhoddion y Maer /</i> Mayor's Donations, 2022-23.	D1	5216	£620.00(0.00)
2/6/22	Mrs Julie John: <i>Ffotograffydd /</i> Photographer	A6	5217	£225.00(0.00)
7/6/22	14 x £150 <i>Lwfans Blynyddol Cynghorwyr /</i> Annual Councillor Allowances	A3	5218- 5231	£2100.00(0.00)
25/5/22	<i>Castell Aberteifi /</i> Cardigan Castle <i>Llogi ystafell cyfarfod /</i> Rent for meeting room	A9	5232	£60.00(10.00)
16/5/22	<i>Swyddfa'r Post – Stampiau /</i> Post Office - Stamps	A8	5233	52.45(0.00)
11/4/22	<i>Menter Aberteifi – Seremoni Sefydlu'r Maer</i>	A4	5234	£130.00(0.00)
11/5/22	Newsquest – <i>Hysbyseb Seremoni Sefydlu'r Maer</i> Advert for the Mayor Making Ceremony	A4	5235	£96.00(16.00)
7/6/22	<i>Canolfan Plant Jig-So</i> Children's Centre	D3	5236	£1000.00(0.00)
7/6/22	Friends of Cardigan Skatepark (re-surfacing)	C5	5237	£1000.00(0.00)
7/6/22	Friends of Cardigan Skatepark	D3	5238	£1000.00(0.00)
7/6/22	Clwb Rygbi Aberteifi / Cardigan RFC	D3	5239	£433.00(0.00)
7/6/22	Poppit Sands Surf Life Saving Club	D3	5240	£495.00(0.00)
7/6/22	<i>Ambiwians Awyr Cymru /</i> Welsh Air Ambulance	D3	5241	£500.00(0.00)
7/6/22	3 rd Cardigan Sea Scouts	D3	5242	£1500.00(0.00)

7/6/22	<i>Theatr Mwldan</i>	D5	5243	£2500.00(0.00)
7/6/22	<i>Theatr Byd Bychan / Small World Theatre</i>	D3	5244	£2500.00(0.00)
7/6/22	<i>Dydd Sadwrn Barlys / Barley Saturday</i>	D10	5245	£1000.00(0.00)
7/6/22	<i>Rhoddi i'r banc bwyd / Food Bank Donation</i>	A4	5246	£400.00(0.00)

Cynigodd y Cynghorwyr bod y biliau a restrwyd yn cael eu talu.

The Councillors proposed that the listed bills be paid.

Mae pob un o'r 9 Cynghorydd Rhyddfrydol Democrataidd (Y Cyng Nick Bolton, Olwen Davies, Elaine Evans, Marilyn Farmer, Stephen Greenhalgh, Teresa Harries, David and Siân Maehrlein a Philippa Noble) yn dymuno iddo gael ei gofnodi y byddai eu treuliau blynyddol o £150 yr un yn cael eu rhannu rhwng elusennau lleol. Byddai 4 o'r taliadau'n cael eu rhoi i Ofal Canser Aberteifi; 2 i Fanc Bwyd Aberteifi, 2 i'r Ganolfan Thereapi Ocsigen a 1 taliad i'r RNLI. Canmolodd y Maer y Cyng Trystan Phillips eu gweithredoedd ac ychwanegodd ei £150 ei hun at elusen Gofal Canser Aberteifi.

All 9 of the Liberal Democratic Councillors (Cllrs Nick Bolton, Olwen Davies, Elaine Evans, Marilyn Farmer, Stephen Greenhalgh, Teresa Harries, David and Siân Maehrlein and Philippa Noble) wish for it to be minuted that their annual expenses of £150 each would be shared between local charities. 4 of the payments would be donated to Cardigan Cancer Care; 2 to Cardigan Food Bank, 2 to the Oxygen Therapy Centre and 1 payment to the RNLI. The Mayor Cllr Trystan Phillips commended their actions and added his own £150 to the Cardigan Cancer Care charity.

Derbyniadau/Receipts:

09/4/2022	Lloyds Bank: Llog / Interest	£0.21
30/4/2022	Taliad Praesept 1/Precept Payment 1	£27,998.70
09/5/2022	Rhent Clwb Rygbi / Rugby Club Rent	£650.00
13/5/2022	Ad-daliad TAW / VAT Repayment	£11,762.21

b) Apwyntio Archwilydd Mewnol am y flwyddyn ariannol 2022-23 a cytuno yr "Amodau Gorchwyl" / Appointment of an Internal Auditor for the 2022-23 financial year and to approve the "Terms of Reference".

Cynigiwyd y cynghorwyr i ailapwyntio Mr Ken Griffiths i wasanaethu fel Archwilydd Mewnol y cyngor am 2022-23.

Anfonwyd yr Amodau Gorchwyl at y Cynghorwyr cyn y cyfarfod a phenderfynwyd eu cymeradwyo.

Councillors resolved that Ken Griffiths is re-appointed as Internal Auditor of the council for the 2022-23 financial accounts.

The Terms of Reference were forwarded to the Councillors prior to the meeting and it was resolved that they be approved.

c) Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
57	<i>Llywodraeth Cymru: Digwyddiad dathlu Cymru wledig. Welsh Government: Celebrating Rural Wales Event.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 11/05/2022. For your information. Forwarded to all councillors on 11/05/2022.</i>
58	<i>Delyth Williams – Sioe Sirol Amaethyddol Aberteifi / Cardigan County Agriculture Show: Digwyddiad pop-up yn y dre i hysbysebu'r sioe / Pop-up event in the town to advertise the show.</i>	<i>Mae'r cyngor yn hapus i gefnogi'r digwyddiad hwn. The council are happy to support this event.</i>
59	<i>Mr James Lynch – Copi o'r map llwybr troed diffiniol ar gyfer Glanfa Teifi / Copy of the definitive footpath map for Teifi Wharf.</i>	<i>Clerc i gysylltu â swyddog hawliau tramwy CSC i ofyn am wybodaeth yngŷn â dyfodol y llwybr troed / Clerk to contact the CCC rights of way officer to ask for information regarding the future of the footpath.</i>
60	<i>CSC – Gweithdy (ar-lein) Cyfleoedd Seilwaith Gwyrdd a Glas Aberteifi.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 12/05/2022.</i>

	CCC – Cardigan Green and Blue Infrastructure Opportunities Workshop (online).	For your information. Forwarded to all councillors on 12/05/2022.
61	Catrin Jones – <i>Swyddog Polisi, Un Llais Cymru – Galwad am arfer da/enghreifftiau wrth ymateb i gynhesu byd-eang a newid hinsawdd.</i> Policy officer, One Voice Wales – Call out for good practice/examples in response to global warming and climate change.	<i>Cynghorwyr i ymateb yn unigol i'r e-bost hwn /</i> Councillors to respond individually to this email.
62	<i>Un Llais Cymru - Hwb Natur – Pethau Bychain: Trafodaeth materion amgylcheddol /</i> One Voice Wales – Nature Hub: Group to discuss environmental issues.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 18/05/2022.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 18/05/2022.
63	<i>Heneiddio yn Dda yng Nghymru: Gweminar Cymunedau Oed-gyfeillgar mewn Partneriaeth.</i> Ageing Well in Wales: Age friendly Communities in Partnership Webinar.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 18/05/2022.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 18/05/2022.
64	<i>Un Llais Cymru – Bwletin Newyddion: Rhifyn amgylchedd arbenning /</i> One Voice Wales – News Bulletin: Special environment edition.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 18/05/2022.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 18/05/2022.
65	<i>CSC Adain Cau Ffyrdd: Digwyddiad Arbennig Cau Ffordd – Pwllhai, Aberteifi: 07.30-18.00 ar 30/05/2022 – 17/06/2022 dyddiadau diwygiedig i'w gadarnhau/</i> CCC Road Closures Section, Temporary Road closure order: Pwllhai, Cardigan: 07.30-18.00 on 30/05/2022 17/6/2022 revised dates to be confirmed.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 18/05/2022.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 18/05/2022.
66	<i>CSC Adain Cau Ffyrdd: Digwyddiad Arbennig Cau Ffordd – Pwllhai, Aberteifi: 07.30-18.00 ar 17/06/2022 - 08/07/2022 dyddiadau diwygiedig /</i> CCC Road Closures Section, Temporary Road closure order: Pwllhai, Cardigan: 07.30-18.00 on 17/06/2022 – 08/07/2022 revised dates.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 26/05/2022.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 26/05/2022.
67	Owen Hathway <i>Chwaraeon Cymru /</i> Sport Wales: <i>Gosodiad arfaethedig 3G Aberteifi /</i> Proposed 3G installation Cardigan.	<i>Nododd y cynghorwyr yr ymateb ond gofynnwyd i'r Clerc i geisio sicrwydd gan CSC ynglŷn â diogelwch y wyneb 3G newydd /</i> Councillors noted the response but asked for Clerk to seek assurance from CCC regarding the safety of the new 3G surface.
68	Ken Forey - <i>Dyfodol Pontŵn Patch /</i> Future for Patch Pontoon.	<i>Adroddod y Cyng Clive Davies fod cyllideb wedi ei gyrchu gan Tim Datblgyu Economaidd CSC i ganiatau atgyweiriad tymor byr cychwynnol ond yn arwain at fuddsoddiad pellach tymor hir i sicrhau dyfodol y pontŵn /</i> Cllr Clive Davies reported that a budget had been sourced from the Economic Development Team at CCC to allow an initial short term fix but leading to further long term investment to ensure the future of the pontoon.
69	Robert Davies Motors: Parc chwarae, Maes Radley / Maes Radley, playing field.	<i>I'w drafod yng nghyfarfod mis Gorffennaf /</i> To be discussed in the July meeting.
70	Ceredigion Local Development Plan - <i>Diweddariad ar y Cynllun Lle /</i> Place Plans Update.	<i>Nodir y diweddariad, cynhelir ymghynghoriad pellach unwaith y bydd yr adroddiad drafft wedi'i gwblhau /</i> The update is noted, further consultation will be carried out once the draft report is completed.
71	CSC – <i>Gweithdy (ar-lein) Cyfleoedd Seilwaith Gwyrdd a Glas Aberteifi.</i> CCC – Cardigan Green and Blue Infrastructure Opportunities Workshop (online).	<i>Allbynnau'r gweithdy /</i> Outputs from the workshop.
72	OPCC Communication – Heddlu Dyfed-Powys Police: <i>Bwletin Mai Comisiynydd Heddlu a Throsedd /</i> Police and Crime Commissioner May bulletin.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 30/05/2022.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 30/05/2022.

73	Wendi Patience – <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales: Sesiynau hyfforddiant o bell a gynhelir yn mis Mehefinl / Remote training sessions that are taking place in June.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 30/05/2022.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 30/05/2022.
74	<i>Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Ceredigion – Arolwg Ymgysylltu Cynllun Llesiant Lleol / Ceredigion Public Service Board – Local Wellbeing Plan Engagement Survey.</i>	<i>Clerc i ymateb yn nodi diddordeb i fod yn rhan o'r ymgysylltu yn y cynllun llesiant lleol / Clerk to respond indicating an interest to be a part of the engagement in the local well-being plan.</i>
75	Linda Cook – <i>Prosiect priffyrdd Draenogod / Hedgehog Highway Project.</i>	<i>Mae cyngorwyr yn dymuno annog amddiffyn draenogod trwy fentrau lleol / Councillors wish to encourage the protection of hedgehogs through local initiatives.</i>
76	Bridget Hiser: <i>Ymgynghori ar gynigion gorchmynion rheoleiddio traffig arbrofol i'w gyfyngu i drigolion lleol / Consultation on experimental traffic regulation orders (ETRO) proposals to be limited to local residents.</i>	<i>Cysylltodd y Cyng Elaine Evans â Ms Hiser eisoes i geisio datrys y mater hwn / Cllr Elaine Evans already contacted Ms Hiser to attempt to resolve this matter.</i>
77	Rachel Carter – <i>Swyddog lleoedd ar gyfer Natur, Un Llais Cymru / Local Places for Nature Officer, One Voice Wales: Arolwg ar cyhoeddiad drafft o Lywodraeth Cymru - "Pecyn cymorth rheolaeth glaswelltir" / Survey on the Welsh Government draft publication - "Grassland management tool kit".</i>	<i>Cyngorwyr i ymateb yn unigol i'r e-bost hwn / Councillors to respond individually to this email.</i>
78	OPCC Communication – <i>Heddlu Dyfed-Powys Police: Yr Angel Gyllell yn Aberystwyth Mehefin 2022, gweithgareddau ymgysylltu am ddim / The Knife Angel Sculpture in Aberystwyth June 2022, free engagement activities.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 07/06/2022.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 07/06/2022.
79	Lowri Jones – <i>Gweithgareddau croesawu Eisteddfod Tregaron / Actions to welcome the Eisteddfod in Tregaron.</i>	<i>Bydd gweithgor o gynhorwyr yn cael ei ffurfio i drefnu gweithgareddau ac addurniadau yn y dref i groesawu Eisteddfod y Cardis / A working group of councillors will be formed to arrange activities and decorations in the town to welcome the Cardis Eisteddfod.</i>

d) Penodi aelodau'r Is-Bwyllgorau a cytuno Amodau Gorchwyl yr Is-Bwyllgorau. Archwiliwyd y rhestr a chytunwyd gyda'r newidiadau. Caiff copi o'r ffurflen am 2022-23 ei hanfon i'r aelodau maes o law. Penderfynwyd cymeradwyo Amodau Gorchwyl yr Is-Bwyllgorau heb unrhyw newidiadau.

Appoint Sub-Committee members and approve Sub-Committee Terms of Reference. The list was scrutinised by members and revised accordingly. A copy of the 2022-23 list will be forwarded to members in due course. It was resolved to approve the Sub-Committee Terms of Reference with no changes.

e) Lleoliad i storio goleuadau Nadolig.

I'w ymchwilio a'i ddatrys gan yr is-bwyllgor addurniadau tref newydd.

Location to store Christmas lights.

To be researched and resolved by the new town decorations sub-committee.

f) Cynllun Lle

Drafodwyd dan ohebiaeth rhif 70.

Place Plans.

Discussed under correspondence no 70.

g) Prosiect "Incredible Edible" Project.

Gweler adroddiad y Cyng Sir Elaine Evans / See the report by County Cllr Elaine Evans.

h) Noson gwobrau grant.

I'w gynnal nos Fawrth 21 Mehefin 2022 yng Nghastell Aberteifi am 7.00yh.

Grant awards evening.

To be held Tuesday 21 June 2022 in Cardigan Castle at 7.00pm.

i) Penodi brysgyllwr newydd.

Clerc i chwilio unigolion addas i lenwi'r rôl.

Appoint a new mace barer.

Clerk to approach suitable individuals to fill the role.

j) Golwg y Dref.

Awgrymodd y Cyng Olwen Davies ddigwyddiad codi sbwriel rheolaidd ar ddydd Sul cyntaf pob mis i wella golwg y dref. Croeso i bawb ymuno. Roedd sesiwn casglu sbwriel llwyddiannus cychwynnol wedi'i threfnu ar gyfer dydd Sul diwethaf, a chefnogodd sawl cynghorydd y digwyddiad, a drefnwyd oherwydd adborth gan drigolion wrth iddynt ganfasio o ddrws i ddrws cyn yr etholiad. Bydd camau bach pellach fel chwynnu hefyd yn cael eu hystyried.

Appearance of the Town.

Cllr Olwen Davies suggested a regular litter pick event the first Sunday of every month to improve the appearance of the town. All welcome to join. An initial successful litter pick had been organised for last Sunday, several councillors supported the event, arranged due to feedback from residents when carrying out door to door canvassing prior to the election. Further small actions such as weeding will also be considered.

9. Eitemau er gwybodaeth yn unig / Items for information only

a) Dyddiadur y Maer / Mayors' Diary.

- **Gwasanaeth Coffa i arsylwi 40 mlynedd ers rhyfel y Falklands. Dydd Sadwrn, 11 Mehefin, Senotaff Aberteifi am 10.45yb.**
Remembrance Service to observe the 40 year anniversary of the Falklands war.
Saturday, 11 June, Cardigan Cenotaph at 10.45am.
- **Gwasanaeth Dinsesig y Maer Dydd Sul 12 Mehefin, 2022 yng Nghapel Ebeneser Dyfed, Rhoshill am 2.00yp.**
Mayoral Civic Service
Sunday 12 June 2022 Ebeneser Dyfed Chapel, Rhoshill at 2.00pm.
- **Gwarchodlu Cymreig gwasanaeth coffa i arsylwi 40 mlynedd ers rhyfel y Falklands, reid dangos barch. Dydd Iau, 23 Mehefin, Senotaff Aberteifi am 12.15yb.**
Welsh Guards Falklands 40th anniversary, Ride of Respect
Thursday 23 June 2022, Cardigan Cenotaph at 12.15am.
- **Gwasanaeth dydd y Lluoedd Arfog. Dydd Sadwrn, 25 Mehefin, Senotaff Aberteifi am 10.45yb.**
Armed Forces Day service.
Saturday 25 June, 2022, Cardigan Cenotaph at 10.45am.

b) Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir / Reports from County Councillors.

Y Cyng Elaine Evans Ward Teifi

Roeddwn yn hapus i gefnogi'r ymgyrch codi sbwriel ddydd Sul 5 Mehefin. Mae croeso i unrhyw un ymuno a byddwn yn rhannu'r dyddiad nesaf ar ein tudalen cyfryngau cymdeithasol ymlaen llaw. Byddwn yn mynd a menig garddio y tro nesaf i ddechrau cymryd rhai chwyn i fyny.

Mae'r ffens ar waelod Bro Teifi yn profi'n problemus i'w hatgyweirio. Mae Barcud, CSC a'r Asiantaeth Cefnffyrdd yn gwadu cyfrifoldeb. Mae'r tair asiantaeth wedi derbyn e-byst a ffotograffau. Y perygl sydd ar fin digwydd yw i blentyn fynd drwy'r bwlch a achosir gan ffens sydd wedi dymchwel ac i lawr i'r ffordd osgoi. Gwnaed ymholiadau cychwynnol gan Debra Griffiths ar ôl derbyn pryderon gan breswlydd. Mae'r amser yn llusgo ymlaen heb unrhyw benderfyniad yn golwg.

Mae ceisiadau'n dod i mewn i newid y biniau fel bod darn sigarets a rei ben. A gawn ni ofyn am y rhain os gwelwch yn dda? Hefyd, mae angen mwy o finiau baw cŵn.

Mae yna menter gynyddol yn lleol i gael pobl i dyfu ffrwythau a llysiau. A allwn ni fel tref annog y fenter hon lle gallwch chi dyfu perlysiâu, saladau, blodau bwytdwy, planhigyn mefus, llus, coed ffrwythau ac ati y gallai pobl helpu eu hunain iddynt. Mae'r sgowtiaid eisioes wedi mynegi diddordeb i gymryd rhan, byddai angen mwy o grwpiau cymunedol i ymuno â nhw. Posib perllan fach i fyny yn Netpool, coed ffrwythau ger y ffordd osgoi? Dyma'r ddolen os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch: [Incredible Edible – If you eat, you're in](#). Efallai y byddai sied Men2Men yn gallu gwneud blychau ffenestr ar gyfer siopau sy'n fodlon cael y tu allan, lle gellid tyfu a rhannu perlysiâu. Mae'n bwysig cefnogi'r mentrau hyn fel tref.

Rwyf wedi cael cyfarfod gyda'r Swyddog Cydraddoldeb a Chynhwysiant, Cathryn Morgan, i drafod y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Caledi, chefais fy ngwneud yn Hyrwyddwr Tlodi yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor Sir. Cawsom gyfarfod da, ac yr wyf yn aros am ragor o wybodaeth a chael cyfarfod arall ddiwedd y mis. Buom yn siarad am y prosiect bwyd yr wyf am ei wneud, gan fod trefi eraill yng Ngheredigion yn gwneud yr un math o beth. Rydw i wir yn teimlo y gallwn ni helpu'r gymuned trwy wneud hyn. Gallai ardal y Strand fod yn lle da ar gyfer prosiect gardd wedi'i chodi yn y gymuned yn hytrach na'i gael yn edrych fel y mae nawr. Roedd yna hefyd Hyb ymgynghori ar wefan Ceredigion lle gallech chi wneud arolwg a mapio syniadau ar gyfer seilwaith Gwyrdd a Glas, sef strategaeth ar gyfer gwyrddu chwe thref yng Ngheredigion, a rhoddais awgrymiadau ar gyfer lle y gellid datblygu pethau fel coed, gerddi ac ati.

Terfyn Cyflymder Cenedlaethol – Rwyf wedi cael cyfarfod â swyddogion ynghylch y terfyn cyflymder 20mya cenedlaethol sy'n dod i mewn, a fydd yn destun ymgynghoriad, a lle bydd parthau 20mya yn dechrau ac yn gorffen yn Aberteifi.

Wal llechi tu ôl i Jewsons a Tafarn y Castell – mae'n beryglus, felly anfonais luniau i Clic. Daeth rhywun allan i'w asesu ac mae'n ymddangos bod rhywun yn tynnu'r garrreg lechen i ffwrdd. Rwyf wedi gofyn iddo gael ei atgyweirio, ac mae fy e-bost wedi'i anfon ymlaen at yr adran cynnal a chadw adweithiol trwy Clic.

Mwy o bobl yn gofyn am help gydag ailgartrefu.

Sefais i mewni Siân i gyflwyno gwobrau yn Teifi Bloom ar gyfer eu cystadleuaeth jiwibili.

Goleuadau traffig ar yr A478 – Mae'r adroddiad opsiynau ar yr A478 ar fin cael ei gwblhau, ac mae'n nodi y bydd angen buddsoddiad o tua £2.5m. Mae hyn ar lefel a fyddai'n fwy na Chyllideb Gyfalaf Priffyrdd y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol, sy'n golygu na ellid gwneud unrhyw waith cyfalaf/gwella arall ar unrhyw ran o'i rwydwaith priffyrdd. Bydd swyddogion yn

parhau i ddatblygu cynigion ar gyfer gwaith gwella ar y darn hwn o ffordd, ond bydd cynnydd/datrysiad yn dibynnu ar sicrhau bod cyllid priodol ar gael gan Lywodraeth Cymru. Y cam nesaf yw cyflogi ymgynghorwyr i ddatblygu cynllun manwl fesul cam gyda chostau'r gwelliant sydd ei angen.

Goleuadau Traffig Parc Teifi – Mae swyddogioin CSC mewn trafodaethau gyda'r tîrfeddiannwr mewn perthynas â'u bod yn gwneud y gwaith adfer angenrheidiol ac wedi dweud na fyddai'n briodol defnyddio arian cyhoeddus i fynd i'r afael â mater sydd wedi'i achosi oherwydd esgeulustod parti traean – yn enwedig os na ellid gwarantu adennill yr arian hwnnw. Mae'r Cyngor yn cysylltu â'r tîrfeddiannwr nawr gyda chyfarwyddyd i'r person symud ymlaen â chamau adferol ar unwaith gyda'r gwaith yn cael ei oruchwylio gan y Cyngor i sicrhau cydymffurfiaeth â chynlluniau y cytunwyd arnynt.

Clr Elaine Evans Teifi Ward

I was happy to support the litter pick on Sunday 5th June, our next on litter pick will be on 3rd July. Anyone is welcome to join and we will share the next date on our social media page beforehand. We will be taking gardening gloves next time to start taking some of the weeds up.

The fence at the bottom of Bro Teifi is proving to be problematic to repair. Both Barcud, CCC and the Trunk Road Agency are denying responsibility. All three agencies have received emails and photographs. The imminent danger is for a child to go through the gap caused by a collapsed fence and down onto the bypass. Initial enquiries were made by Debra Griffiths, after receiving concerns from a resident. The time is dragging on with no resolution in sight.

Requests are coming in to change the bins so that there is a cigarette bit on top. Can we ask about these please? Also, more dog mess bins are needed.

There is a growing movement locally to get people growing fruit and vegetables. Can we as a town council encourage this initiative where you can grow herbs, salads, edible flowers, strawberry plants, blueberries, fruit trees etc that people could help themselves to. The scouts have already expressed an interest to get involved, we would need more community groups to join them. Possibly a small orchard up in Netpool, fruit trees by the bypass? This is the link if you need further information: [Incredible Edible – If you eat, you're in](#). Perhaps the Men2Men shed would be able to make some window boxes for shops to have outside, where herbs could be grown and shared. It's important to support these initiatives as a town.

I've had a meeting with the Equalities and Inclusion officer, Cathryn Morgan, to discuss the Tackling Hardship Strategy and Action Plan as I was made Poverty Champion in the last County Council meeting. We had a good meeting, and I am waiting for further information and have another meeting at the end of the month. We spoke about the food project that I want to do, as there are other towns in Ceredigion doing the same kind of thing. I really feel that we could help the community by doing this. The Strand area could be a good place for a community raised garden project rather than have it looking like it is now.

There was also a consultation Hub on Ceredigion's website where you could do a survey and map ideas for Green and Blue infrastructure, which is a strategy for greening six towns in Ceredigion, and I put up suggestions for where things like trees, gardens etc could be developed.

National Speed Limit - I have had a meeting with officers about the National 20mph speed limit coming in, which will go out to consultation, and where 20mph zones will start and finish in Cardigan.

Slate Wall behind Jewsons and the Castle Inn – it's dangerous, so I sent photos to Clic. Someone came out to assess and it appears that someone is removing the slate stone. I've asked for it to be repaired, and my email has been forwarded to the reactive maintenance section via Clic.

More people asking for help with rehousing.

I stood in for Sian to present prizes at Teifi Bloom for their jubilee competition.

Traffic Lights on A478 - The options report on the A478 is now nearing completion, and it indicates that investment of the order of £2.5m will be required. This is at a level which would exceed the Council Highways Capital Budget for the financial year, meaning that no other capital/improvement works could be undertaken on any section of its highway network. Officers will continue to develop proposals for improvement works along this stretch of road, but progress/resolution will be dependent on appropriate funding being made available by Welsh Government. The next phase is to employ consultants to progress a staged detailed design with costings of the improvement required.

Parc Teifi Traffic Lights - CCC Officers are in discussion with the landowner in relation to them undertaking the necessary remedial works and have said that it would not be appropriate to utilise public money to address an issue that has been caused due to the negligence of a third party – particularly if recovery of those monies could not be guaranteed. The Council is contacting the landowner now with an instruction for the person to progress remedial actions immediately with the works being supervised by the Council to ensure compliance with agreed designs.

Y Cyng Siân Maehrlein Ward Mwldan / Cllr Siân Maehrlein Mwldan Ward

Dim i'w nodi / Nothing to report.

c) Adroddiad y Bachan Deche / Handy person's Report

- i. **Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed / King George 5th Children's Play Area**
Dim byd o bwys i'w gofnodi / Nothing of note to record.
- ii. **Man chwarae amlwrpas a chyrtau tenis/ Multi-purpose play area and Tennis Courts.**
Dim byd o bwys i'w gofnodi / Nothing of note to record.
- iii. **Maes Sgrialu / Skateboard Park**
Dim byd o bwys i'w gofnodi / Nothing of note to record.
- iv. **Cyffredinol / General**
Mae tair o'r coed a blannwyd gan CSC yng Nghei'r Tywysog Siarl wedi marw ac mae angen eu tynnu a'u hailblannu – mae cynghorwyr yn gweld hwn fel cyfle i blannu coed frwythau/ Three of the trees planted by CCC at Prince Charles Quay have died and need to be removed and replanted – councillors see this as an opportunity to plant fruit trees.
Mae'r holl dybiau, planwyr Senotaff a Chlwb Rygbi wedi'u plannu, gobeithio y bydd tywydd braf dros y misoedd nesaf yn annog tyfiant / All tubs, planters, Cenotaph and RFC have been planted, hopefully some nice weather over the coming months will encourage growth.
Mae'r coed yn ardal chwarae Pentop wedi gordyfu ac angen eu torri'n ôl, rwy'n hapus i wneud y gwaith, ond bydd angen y peiriant naddi gan Mark Toft i waredu'r anghennau – cytunodd cyngorwyr i ganiatau'r gwaith hwn ar ôl derbyn dyfynbris / The trees in the Pentop play area overgrown and need to be cut back, I am happy to undertake the work, but I will need the chipping machine from Mark Toft to dispose of the branches – councillors agreed

to permit this work after a quote has been received.

10. Eitemau ar gyfer yr Agenda nesaf

Items for the next Agenda

Adroddiad gan Clwb Pêl-droed Aberteifi / Presentation by Cardigan Football Club.

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.15yh.

There being no further business to discuss, the meeting closed at 8.15pm.

Arwyddwyd/Signed (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date